# CYNGOR CYMUNED LLANRUG

# POLISI IAITH

**CYNNWYS**


1. Datganiad Agoriadol

2. Cyflwyniad i Gyngor Cymuned Llanrug

3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth

3.1 Polisïau a Mentrau Newydd

3.2 Safonau Ansawdd

4. Ymdrin â'r cyhoedd sydd yn siarad Cymraeg

4.1 Gohebu Ysgrifenedig

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus a drefnwyd gan neu ar gyfer y Cyngor

4.4 Cyfarfodydd y Cyngor

4.5 Cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd

4.6 Ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd

5. Wyneb Cyhoeddus y Cyngor

5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

5.2 Arwyddion

5.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd

5.4 Swyddogaethau Statudol a Hyrwyddol

5.5 Gwasanaethu gan bartïon eraill

6. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

6.1 Staffio

6.2 Trefniadau gweinyddu

6.3 Y gwasanaeth cyfieithu

6.4 Monitro

6.5 Cyhoeddusrwydd

6.6 Cysylltu â'r Cyngor

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG CYNGOR CYMUNED LLANRUG

## 1. DATGANIAD AGORIADOL

Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ei hardal.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Cyngor felly yn cynnig yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef.

Nod y Cyngor yw:

- Galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.

- Bydd Cyngor Cymuned Llanrug ar bob achlysur yn cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

- Bydd Cyngor Cymuned Llanrug yn annog mudiadau oddi fewn i'r gymuned ble mae'r Cyngor yn rhoi cyfraniadau ariannol iddynt i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

## Y CYNGOR

Mae'r Cyngor yn cynnwys 14 aelod sydd wedi'u hethol, pob un ohonynt yn ddwyieithog a gyda'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r Clerc, a gyflogir yn rhan amser, ac yn gweithio o'i gartref, yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn iaith gyntaf, ac yn gallu delio gyda'r cyhoedd yn llafar ac yn ysgrifenedig yn ddwyieithog.

Mae prif swyddogaethau'r Cyngor yn cynnwys:

- Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus;
- Darparu a chynnal a chadw cysgod fannau bws

- Darparu a chynnal a chadw seddau cyhoeddus
- Cydweithio gydag Adran Priffyrdd y Sir ar fesurau arafu traffig a gwelliannau i'r priffyrdd.
- Ystyried materion cynllunio
- Apwyntio cynrychiolwyr i gyrff lleol ac allanol.
- Enwebu cynrychiolwyr i Fwrdd Llywodraethu'r Ysgol Gynradd
- Darparu cymorth ariannol i amrywiaeth o fudiadau gwirfoddol ac elusennol lleol a chenedlaethol
- Gweithio gyda'r heddlu i ddiogelu'r gymuned
- Derbyn, trafod a delio gyda chwynion oddi wrth drigolion y gymuned.
- Dolen gyswllt rhwng trigolion/mudiadau lleol a'r sector statudol i ddatblygu prosiectau yn y gymuned.
- Darparu, cynnal a chadw mynwent y plwyf
- Darparu a chynnal a chadw dau gae chwarae a'r offer chwarae sydd arno

Mae yna nifer o grwpiau cymdeithasol, chwaraeon, diwylliannol a chymunedol sy'n chwarae rhan flaenllaw ym mywyd y gymuned. Mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo datblygiad cymunedol ac i ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safon bywyd yn yr ardal.

O fewn ardal y Cyngor, mae yna 3 addoldy o enwadau amrywiol, sydd yn cynnal eu gwasanaethau yn ddwyieithog.

Mae rhan fwyaf o'r mudiadau sydd wedi'u lleoli o fewn ardal y Cyngor yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys Capeli ac Eglwysi, Ysgolion Cynradd, Mudiad Ysgolion Meithrin, Merched y Wawr, Seindorf Arian Llanrug, Clwb Ieuenctid, Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig a chlwb pêl droed Llewod Llanrug ar gyfer y plant.

## 3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

### 3.1. Polisïau a Mentrau Newydd

3.1.1. Wrth lunio neu ystyried polisïau a mentrau newydd, bydd Cyngor Cymuned Llanrug yn:

- Asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith.

- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio’r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny’n bosibl, ac yn symud yn nes at wireddu’r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw.

- Ymgynghori â Comisiynydd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad fyddai’n effeithio ar y Cynllun hwn, neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Bwrdd ymlaen llaw.

- Sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o’r Cynllun ac o gyfrifoldebau’r Cyngor o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

- Sicrhau y bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith.

### 3.2. Safonau Ansawdd

3.2.1. Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth o’r un safon uchel ac yr un mor brydlon yn y ddwy iaith.

## 4. YMDRIN Â’R CYHOEDD SYDD YN SIARAD Cymraeg

### 4.1. Gohebu Ysgrifenedig

4.1.1. Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg.

4.1.2. Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi.

4.1.3. Os derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg caiff ei ateb yn y Gymraeg.

4.1.4. Yn dilyn sgwrs ffôn, neu gyfarfod lle sefydlwyd mai Cymraeg yw dewis iaith y person, yna fe anfonir gohebiaeth yn y Gymraeg.

4.1.5. Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o’r cyhoedd yn ei dewis/ddewis iaith lle bo hynny’n hysbys.

4.1.6. Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i’r cyhoedd yn ddwyieithog.

4.1.7. Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i gyfieithu gohebiaeth yn ôl yr angen er mwyn ateb llythyrau yn brydlon yn yr iaith wreiddiol.

4.1.8. Bydd papur pennawd swyddogol y Cyngor yn ddwy ieithog.

## 4.2. Cyfathrebu dros y ffôn

4.2.1. Bydd y Clerc yn gweithio o'i gartref a bydd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

4.2.2. Pan ddaw swydd y Clerc yn wag bydd y Cyngor yn ei hysbysebu gan nodi fod sgiliau dwyieithog yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor allu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

## 4.3. Cyfarfodydd Cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor

4.3.1. Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod.

4.3.2. Bydd pob hysbysrwydd am gyfarfod cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog, ac yn gwahodd mynychwyr i hysbysu'r Clerc o'u dewis iaith o leiaf saith diwrnod ymlaen llaw er mwyn gallu gwneud trefniadau cyfieithu priodol ar gyfer y di-gymraeg.

4.3.3. Bydd y Cyngor yn darparu offer cyfieithu ar gyfer y di-gymraeg, yn ôl y galw, mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor.

4.3.4. Bydd o leiaf un swyddog neu aelod etholedig yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio ag ymholiadau, cwestiynau neu sylwadau yn Gymraeg.

4.3.5. Bydd unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig megis taflenni neu dryloywon sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog.

## 4.4. Cyfarfod y Cyngor

4.4.1. Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn uniaith Gymraeg.

4.4.2. Bydd pob hysbysiad ac Agenda o gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog.

4.4.3. Bydd y cofnodion yn uniaith Gymraeg. Gellir eu cyfieithu i Saesneg drwy gysylltu â'r Clerc

4.4.4. Bydd y Cyngor yn ymateb yn dewis iaith unrhyw ymholydd i geisiadau am wybodaeth sydd yn deillio o'r cofnod, neu unrhyw ran o'r cofnod.

**4.5. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd**

4.5.1. Bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg ond fod gan pawb yr hawl i drafod yn eu iaith dewisol.

**4.6. Ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd**

4.6.1 Mae Gwefan y Cyngor www.llanrug.cymru yn Gymraeg. Mae botwm 'Google Translate' ar y wefan sydd yn cyfieithu cynnwys y wefan i nifer o ieithoedd. Nid yw yn gallu cyfieithu dogfennau ond drwy gysylltu â'r Clerc gellir trefnu fod y rhain yn cael eu cyfieithu i Saesneg.

**5.0 WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR**

**5.1. Hunaniaeth Gorfforaethol**

5.1.1. Enw'r Cyngor yw "Cyngor Cymuned Llanrug Community Council"

5.1.2. Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog.

5.1.3. Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapur pennawd swyddogol, ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall, gyda'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth dros y Saesneg.

**5.2. Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau cyhoeddus**

5.2.1. Bydd deunydd cyffredinol e.e. hysbysiadau yn y wasg, a hysbysfyrddau a anelir at y cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Argreffir y ddau fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croesgyfeirio, dosbarthu a chynnig dewis iaith. Ble mae'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr hysbysiad, bydd y Gymraeg ar yr ochr chwith. Ble nad yw'n bosib eu rhoi ochr yn ochr ag bod angen rhoi un wrth ben y llall, y Gymraeg fydd ar y brig bob amser.

5.2.2. Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd i'w cael.

5.2.3. Bydd hysbysebion am swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer yn uniaith Gymraeg ymhob cyhoeddiad, gyda brawddeg esboniadol fel troednodyn yn cael ei chynnwys mewn cyhoeddiadau Saesneg neu ddwyieithog.

**5.3 Swyddogaethau statudol a hyrwyddol**

5.3.1. Yn y manylion a roddir i'r rhai sy'n bwriadu ymgeisio am gyfraniad ariannol tuag at weithgareddau lleol, bydd y Cyngor yn gwneud yn glir fod angen i ymgeiswyr ddisgrifio sut y maent yn bwriadu adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn y gweithgareddau y maent yn gofyn am gefnogaeth ariannol tuag atynt. Wrth bwyso a mesur ceisiadau, bydd y Cyngor yn disgwyl fod ymgeiswyr wedi adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned yn briodol yn eu cais.

5.3.2. Bydd y Cyngor yn edrych yn ffafriol ar geisiadau sydd wedi adlewyrchu'n briodol natur ieithyddol y gymuned

5.3.3. Pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion dwyieithog ar safleoedd megis swyddfeydd, busnesau a siopau drwy gyfeirio at natur ieithyddol yr ardal.

5.3.4. Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd bydd y Cyngor yn annog defnyddio enwau Cymraeg.

### 5.4. Gwasanaethau gan Bartïon Eraill

5.4.1 Bydd unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor i ddefnyddio trydydd parti i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran yn cydymffurfio â gofynion penodol y Cynllun fel yr amlinellwyd gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn nodi pa fesurau perthnasol o'r Cynllun y bydd angen i'r trydydd parti gydymffurfio â nhw yn y manylebau tendro neu gontract.

5.4.2. Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â mesurau perthnasol y Cynllun trwy lythyr.

5.4.3 Pan yn cyfathrebu a chwmni neu gorff cyhoeddus yng Nghymru am y tro cyntaf, bydd Cyngor Cymuned Llanrug yn defnyddio'r Gymraeg. Pe dderbynnir llythyr uniaith Saesneg gan gwmni / gorff cyhoeddus yng Nghymru, yna bydd y Clerc yn cysylltu a hwy i ofyn am fersiwn Gymraeg.

## 6. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

### 6.1. Staff

6.1.1. Mae Clerc y Cyngor yn ddwyieithog. Pan ddaw'r swydd honno yn wag, caiff ei llenwi gan aelod o staff dwyieithog a hysbysir y swydd fod y Gymraeg yn hanfodol.

### 6.2. Trefniadau Gweinyddol

6.2.1 Mae gan y Cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor.

6.2.2. Y Clerc fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor.

### 6.3. Y Gwasanaeth Cyfieithu

6.3.1. Y Clerc fydd yn gyfrifol am gyfieithu Agenda a Chofnodion y Cyngor ac unrhyw lythyron unigol. Bydd y Cyngor yn cyflogi cyfieithydd allanol ar gyfer

unrhyw ddogfennau eraill, ac unrhyw waith nad yw'r Clerc yn medru ei gwblhau yn yr amser angenrheidiol. Neilltuir arian yng nghyllideb y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer cyfieithu.

6.3.2. Y Clerc fydd yn gyfrifol am drefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl anghenion y Cyngor.

6.3.3. Bydd y ddarpariaeth hon ar gael ymhob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor, lle mae ei angen, ac mewn unrhyw gyfarfod Cyngor arall yn ôl penderfyniad y Cyngor.

**6.4. Monitro**

6.4.1. Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun.

6.4.2. Bydd y Cyngor yn derbyn Adroddiad Blynyddol byr ar weithrediad y Cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n lleol e.e. y wasg leol, byrddau arddangos lleol, papur bro misol ayyb.

6.4.3. Bydd yr Adroddiad yn delio â phob agwedd o'r Cynllun Iaith.

6.4.4. Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd (trwy lythyr neu drwy e-bost) ar sut i wella unrhyw agwedd o'r polisi iaith.

**6.5. Cyhoeddusrwydd**

6.5.1. Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn rheolaidd (mae copi o'r polisi iaith ar wefan y Cyngor).

**6.6. Cysylltu â'r Cyngor**

6.6.1. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun i sylw:

Clerc y Cyngor
7 Nant y Glyn

Llanrug
Gwynedd,
LL55 4AH

 07769 112875
 clerc@llanrug.cymru <mailto:clerc@llanrug.cymru>